Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 306 - 20 Rhagfyr 2007
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2007.

1. Ymgynghoriad Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc
Cafwyd trafodaeth ar lansio'r Gwasanaeth Meithrin.

2. Adroddiad y Cadeirydd
Cyfeiriodd y Cadeirydd at dderbyniad a gynhaliwyd yn Galeri Caernarfon i ddathlu pen-blwydd S4C yn 25 oed.

Cynhaliwyd cinio rhwng yr Awdurdod a Chyngor Cynulleidfa y BBC. Yn ogystal, mynychodd y Cadeirydd noson Carolau Llangollen.

Nododd y Cadeirydd fod yr Athro Colin Baker, Cyfarwyddwr Canolfan Astudiaethau Dwyieithrwydd ESRC ym Mhrifysgol Bangor wedi mynegi diddordeb i gyflwyno eu gwaith ar ieithwedd a dwyieithrwydd i'r Awdurdod.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr
Cyflwynodd IJ ei hadroddiad.

Cafwyd adroddiad ar weithgareddau masnachol S4C.

4. Cyllideb 2008
Cyflwynodd KM y prif newidiadau yng nghyllideb drafft 2008 ac yn dilyn y drafodaeth penderfynwyd cymeradwyo'r Cyllideb.

5. Cofrestr Risg 2008
Nododd KM ei bod wedi rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg o gofrestr risg S4C sydd bellach ar gael ar system gyfrifiadurol *4Risk*.

6. Cymeradwyo Drafft Cynllun Corfforaethol 2008
Nododd IJ nad oedd unrhyw beth pellach i'w adrodd ar Gynllun Corfforaethol 2008. Cymeradwywyd y cynllun.

7. Materion Eraill
Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Cofnodion Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Rhaglen Waith yr Awdurdod 2007
- Tabl Digwyddiadau am 2007